# Cyngor Dinas Casnewydd

## Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

### Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol – Gorffennaf 2010



**Cyf: 401A2010**

Llun trwy garedigrwydd Cyngor Dinas Casnewydd.

Arweiniwyd Tîm Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Cyngor Dinas Casnewydd gan Steve Barry (Arweinydd Asesu Gwelliant) a Janet Villars (Cydgysylltydd Asesu Gwelliant) o dan gyfarwyddyd Jane Holonia (Partner).

**Mae'r arweinyddiaeth newydd yn dangos arwyddion o gryfder, gan osod sylfaen newid trawsnewidiol a mynd i'r afael â materion hirsefydlog o ran rheoli ariannol, ond mae angen i Gyngor Dinas Casnewydd roi cynlluniau ariannol tymor canolig ar waith a datblygu ei strategaethau a'i raglen newid ymhellach i danategu gwelliant a'i gynnal.**

**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**
**Ffôn: 029 2032 0500**
**Ffacs: 029 2032 0600**
**Ffôn Testun: 029 2032 0660**
**E-bost: info@wao.gov.uk**
**Gwefan: www.wao.gov.uk**

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Dinas Casnewydd fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei harchwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk



# Cynnwys


Crynodeb 4

Rhan 1: Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser 6

Wrth addasu i newid gwleidyddol sylweddol a newid sylweddol o ran swyddogion, mae'r Cyngor wedi pennu cyllideb wedi'i mantoli, wedi parhau i ganolbwyntio ar flaenoriaethau allweddol, ac wedi dechrau datblygu a gweithredu fframwaith ar gyfer newid trawsnewidiol 6

Mae'r arweinyddiaeth wleidyddol newydd a'r arweinyddiaeth newydd o ran swyddogion yn ymsefydlu, yn cynnal perfformiad ac yn cyflawni prosiectau â blaenoriaeth 6

Cynhyrchodd y Cyngor gyllideb fantoledig ar gyfer 2010-11, am y tro cyntaf, ac mae'n parhau i lywio'i agenda effeithlonrwydd 7

Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol newydd yn sefydlu fframwaith ar gyfer newid, gan sicrhau bod gweithgarwch gwasanaethau yn gydnaws â gweledigaeth o newid trawsnewidiol 8

Rhan 2: Dadansoddi trefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella 10

Ceir arwyddion y dylai'r arweinyddiaeth gref a'r fframwaith ar gyfer newid sy'n dod i'r amlwg, wedi'u tanategu gan fwy o bwyslais ar reoli cyllidebau, effeithlonrwydd a gweithio mewn partneriaeth gefnogi gwelliant, ond mae angen datblygu'r trefniadau cynllunio ariannol tymor canolig, mesurau canlyniadau a'r strategaethau rheoli pobl, rheoli asedau a rheoli TGCh ymhellach 10

Mae arweinyddiaeth gref, gweledigaeth a fframwaith sy'n datblygu ar gyfer y dyfodol, gwell trefniadau rheoli cyllideb a gweithio mewn partneriaeth yn cefnogi gwelliant 10

Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran datblygu cynlluniau ariannol tymor canolig a gwerthuso cynaliadwyedd tymor hwy gweithgarwch, ond nid yw'r mesurau perfformiad presennol yn dangos y canlyniadau'n glir hyd yma 12

Cymerir camau i wella trefniadau rheoli asedau corfforaethol ond, hyd yma, nid yw'r trefniadau'n gydnaws â chyflawni'r rhaglen newid 14

Nid yw'r trefniadau presennol ar gyfer rheoli pobl a rheoli TGCh yn strategol yn gydnaws â chyflawni'r rhaglen newid 14

# Crynodeb

1 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009) (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad blynyddol o Welliant ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru; hynny yw cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

2 Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal:

- Asesiad Corfforaethol – asesiad o drefniadau awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus;
- Asesiad o Berfformiad – i asesu p'un a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ar ei gyfer.

3 Yn y modd hwn gellir cynnal asesiad sefydliad cyfan ym mhob cyngor/awdurdod mewn ffordd safonol. Gyda'i gilydd, bydd y ddau asesiad hyn yn sail i adroddiad blynyddol i ddinasyddion, a elwir yn Adroddiad Gwella Blynyddol.

4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyfuno ei waith ef/ei gwaith hi, gwaith yr Archwilydd Penodedig a gwaith rheoleiddwyr perthnasol eraill, i lywio'r Asesiad Corfforaethol. Gan mai hon yw blwyddyn gyntaf y dull gweithredu newydd, mae'r asesiad yn un rhagarweiniol a dylid ystyried yr adroddiad hwn yn adroddiad ar gynnydd. Bydd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr Asesiad Corfforaethol.

5 Ym mis Mawrth 2010, nododd yr Archwilydd Cyffredinol raddau'r her ariannol a oedd yn wynebu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru mewn adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol sef *Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus*. Mae effaith bosibl y gostyngiadau mewn gwariant ar lywodraeth leol hefyd wedi'i hamlygu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol (SOLACE). Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mehefin 2010, nododd CLILC nad oedd modd osgoi'r ffaith y byddai'n rhaid i bob rhan o'r sector cyhoeddus edrych ar ei gwariant presennol a'r gwasanaethau a ddarperir ganddi ac nad oedd yn bosibl cywiro'r diffyg drwy arbedion effeithlonrwydd yn unig. Er mwyn ymateb i'r her hon, mae'n rhaid i awdurdodau lleol gynnal adolygiad sylfaenol o'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt a'r modd y'u cyflwynir, gan gynnwys opsiynau ar gyfer caffael mwy o wasanaethau yn hytrach na'u darparu a chydweithredu. Lluniwyd yr Asesiad Corfforaethol yn y cyd-destun hwn.

6 Mae'r adroddiad hwn ond yn nodi canfyddiadau'r Asesiad Corfforaethol a'i ddiben yw ateb y cwestiwn:

‘A yw trefniadau Cyngor Dinas Casnewydd (y Cyngor) yn debygol o sicrhau gwelliant parhaus?’



7 Gan mai ein Hasesiad Corfforaethol Rhagarweiniol yw hwn mae sawl maes lle mai dim ond gwaith cyfyngedig sydd wedi bod yn bosibl. Byddwn yn parhau i adeiladu ar hyn a monitro cynnydd yn y misoedd i ddod er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol i'w gyhoeddi ym mis Tachwedd.

8 Y casgliad sy'n deillio o'n Hasesiad Corfforaethol cyntaf yw bod yr arweinyddiaeth newydd yn dangos arwyddion o gryfder, gan osod sylfaen newid trawsnewidiol a mynd i'r afael â materion hirsefydlog o ran rheoli ariannol, ond mae angen i'r Cyngor ddatblygu cynlluniau ariannol tymor canolig a datblygu'r strategaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh), y strategaeth rheoli asedau, y strategaeth rheoli pobl a'r rhaglen newid ymhellach i danategu gwelliant a'i gynnal.

9 Mae ein casgliad yn seiliedig ar ein hasesiad o'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor dros amser a dadansoddiad o gryfderau a gwendidau ei drefniadau i gefnogi gwelliant. Esbonnir y casgliadau hyn yn fanwl yn Rhan 1 a Rhan 2 o'r adroddiad yn y drefn honno. Nodwyd y canlynol gennym:

- wrth addasu i newid gwleidyddol sylweddol a newid sylweddol o ran swyddogion, mae'r Cyngor wedi pennu cyllideb wedi'i mantoli, wedi parhau i ganolbwyntio ar flaenoriaethau allweddol, ac wedi dechrau datblygu a gweithredu fframwaith ar gyfer newid trawsnewidiol;

- ceir arwyddion y dylai'r arweinyddiaeth gref a'r fframwaith ar gyfer newid sy'n dod i'r amlwg, wedi'u tanategu gan fwy o bwyslais ar reoli cyllidebau, effeithlonrwydd a gweithio mewn partneriaeth gefnogi gwelliant, ond mae angen datblygu'r trefniadau cynllunio ariannol tymor canolig, mesurau canlyniadau a'r strategaethau rheoli pobl, rheoli asedau a rheoli TGCh ymhellach.

## Meysydd i'w gwella

10 Mae'r asesiad wedi nodi meysydd lle y cynigiwn y dylai'r Cyngor ystyried cymryd camau gweithredu.

| Arddangosyn 1: Meysydd i'w gwella |
|---|
| C1 Mireinio a datblygu trefniadau o ran gwybodaeth am berfformiad i nodi manteision gweithgareddau'r Cyngor a'i bartneriaid o ran canlyniadau ar gyfer dinasyddion a chymunedau. |
| C2 Rhoi cynllun ariannol tymor canolig ar waith sy'n gydnaws â chyflawni'r rhaglen newid trawsnewidiol. |
| C3 Gweithredu trefniadau llywodraethu TGCh i gefnogi'r broses strategol o ddatblygu technoleg sy'n gydnaws ag anghenion busnes y gwasanaeth a safonau corfforaethol. Ymgorffori buddsoddiad mewn TGCh mewn cynlluniau ariannol tymor canolig a sicrhau y darperir technoleg yn y ffordd fwyaf cost effeithiol, ei bod yn gynaliadwy, nad yw'n arwain at risgiau diangen a'i bod yn cefnogi gorbenion. |
| C4 Datblygu trefniadau Adnoddau Dynol a threfniadau datblygu sefydliadol sy'n gydnaws â'r rhaglen Cymwys ar gyfer y Dyfodol. |
| C5 Mynd i'r afael â gwendidau o ran rheoli asedau drwy ymgorffori argymhellion Adroddiad Rheoli Adeiladau Swyddfa Archwilio Cymru mewn cynlluniau ar gyfer sefydlu gwasanaeth eiddo integredig. |
| C6 Gweithredu trefniadau i fonitro adroddiadau ac argymhellion rheoleiddio allanol, cyflwyno adroddiadau arnynt a'u holrhain gyda swyddogion perthnasol ac aelodau etholedig. |

## Rhan 1: Sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser

### Wrth addasu i newid gwleidyddol sylweddol a newid sylweddol o ran swyddogion, mae'r Cyngor wedi pennu cyllideb wedi'i mantoli, wedi parhau i ganolbwyntio ar flaenoriaethau allweddol, ac wedi dechrau datblygu a gweithredu fframwaith ar gyfer newid trawsnewidiol

11 Ers 2008, mae arweinyddiaeth wleidyddol y Cyngor wedi newid, a ddilynwyd gan newid y Tîm Rheoli Corfforaethol cyfan yn 2009. Mae cytundeb clymblaid yn pennu blaenoriaethau'r weinyddiaeth wleidyddol ac mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol ar gamau cychwynnol newid trawsnewidiol.

**Mae'r arweinyddiaeth wleidyddol newydd a'r arweinyddiaeth newydd o ran swyddogion yn ymsefydlu, yn cynnal perfformiad ac yn cyflawni prosiectau â blaenoriaeth**

12 Bu newid sylweddol o fewn y Cyngor o ran arweinyddiaeth wleidyddol ac arweinyddiaeth o ran swyddogion dros y blynyddoedd diwethaf. Ym mis Mai 2008, ffurfiwyd gweinyddiaeth newydd y Cyngor gan glymblaid o gynghorwyr y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol ar ôl dros 20 mlynedd o arweinyddiaeth gan y grŵp Llafur. Yn ystod 2009, penododd y Cyngor Dîm Rheoli Corfforaethol newydd yn cynnwys Rheolwr Gyfarwyddwr, tri Chyfarwyddwr Corfforaethol ac, ym mis Chwefror 2010, Bennaeth Adnoddau Dynol newydd.

13 Mabwysiadodd y weinyddiaeth wleidyddol gytundeb clymblaid yn nodi'r 21 o flaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Roedd y blaenoriaethau hyn yn cynnwys camau i'w cymryd ar unwaith megis lleihau nifer aelodau'r Cabinet a lleihau lwfansau ar gyfer cyfrifoldebau arbennig. Mae'r Cyngor wedi cyfuno a blaenoriaethu'r 21 o flaenoriaethau â mentrau eraill yn 10 prosiect mawr. Mae un o'r prosiectau'n defnyddio benthyca darbodus i ariannu 'Prosiect 21', sef rhaglen fuddsoddi tair blynedd gwerth £21 miliwn i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw ffyrdd yn y ddinas dros y tair blynedd nesaf.

14 Dangosodd dadansoddiad o fesurau cerdyn sgorio cytbwys y Cyngor ar gyfer 2008-09 fod 67 y cant o ddangosyddion perfformiad naill ai wedi cynnal neu wella'u perfformiad – sef cynnydd o 1 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

15 Bu cynyddu safonau addysgol yn ffocws allweddol i'r Cyngor, gyda chanlyniadau rhagorol yng nghyfnodau allweddol 1 a 2 a chanlyniadau da yng nghyfnod allweddol 3. Mae'r canlyniadau'n wannach yng nghyfnod allweddol 4 ond dangosir rhywfaint o welliant.



16 Ym mis Mawrth 2010, nododd AGGCC nad oedd y Cyngor yn mynd ati i ddiogelu oedolion sy'n agored i niwed mewn modd cyson, bod angen gweledigaeth gliriach a chytûn o sut y dylai gwasanaethau amddiffyn oedolion ddatblygu. Roedd graddau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau'n amrywio, prin oedd y cynnydd tuag at weithredu ac ymgorffori argymhellion rheoleiddio blaenorol, ac mae'n bosibl na fydd y gwelliannau a gyflawnwyd yn gynaliadwy yn y tymor hwy.

## Cynhyrchodd y Cyngor gyllideb fantoledig ar gyfer 2010-11, am y tro cyntaf, ac mae'n parhau i lywio'i agenda effeithlonrwydd

17 Prif ffocws cychwynnol y Rheolwr Gyfarwyddwr a'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol newydd oedd cyllideb 2010-11 a mynd i'r afael â'r gostyngiadau o £8.6 miliwn sydd eu hangen a rhoi'r gorau i ddibynnu ar falansau. Mae'r arweinyddiaeth newydd yn mynd i'r afael â'r darlun strategol cymhleth, ac mae wedi dangos arweinyddiaeth gref drwy wneud rhai penderfyniadau anodd a chanolbwyntio'n gliriach ar gyllid.

18 Cydnabu'r weinyddiaeth nad oedd parhau i ddefnyddio balansau cyffredinol wrth bennu cyllidebau yn gynaliadwy, yn enwedig o ystyried bod y rhagolygon economaidd yn dangos bod y sector cyhoeddus yn wynebu toriadau sylweddol mewn adnoddau ariannol dros y tymor canolig.

19 Ar y cyd â'r Cyngor, cynhaliodd CLILC adolygiad cymheiriaid o'i drefniadau rheoli ariannol. Mae'r materion allweddol a godwyd yn ymwneud â:

- datblygu cynllun ariannol tymor canolig cadarn;
- sicrhau bod cynigion o ran y gyllideb yn realistig;
- datblygu strategaeth gyfalaf.

20 Sefydlodd y Cyngor Uned Effeithlonrwydd fewnol i reoli prosiectau adolygu effeithlonrwydd. Yn bennaf maent wedi ystyried:

- arlwyo mewn ysgolion, disgwylir arbedion o £800,000 y flwyddyn;
- gostyngwyd cyfraddau teithio a chynhaliaeth i sicrhau arbedion o £150,000 i £300,000);
- y defnydd o wasanaethau proffesiynol;
- gwasanaethau adeiladu (SGU gynt);
- y defnydd o grantiau'r sector gwirfoddol.

Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi penodi partner perfformiad a gwella i lywio'i brosiectau effeithlonrwydd sydd wedi canolbwyntio ar feysydd sy'n ymwneud â thrafnidiaeth. Sail y taliadau i'r partner yw cyfran o'r arbedion a sicrheir ganddo.

21 Mae Cyfarwyddwyr Corfforaethol yn ymgysylltu â Phenaethiaid Gwasanaethau a'u rheolwyr gweithredol i ddatblygu syniadau ar gyfer trawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu, o fewn yr adnoddau sydd ar gael, ac ar gyfer sicrhau enillion effeithlonrwydd pellach. Hyd yma mae hyn wedi arwain at newid y ffordd y darperir gwasanaethau pryd ar glud a gwasanaethau dydd i bobl sy'n agored i niwed a phobl hŷn.

22 Ym mis Medi 2009, cyhoeddodd yr Archwilydd Penodedig adroddiad archwilydd diamod ar y datganiadau ariannol, gan gadarnhau bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'r trefniadau o ran cyflwyno adroddiadau ar welliant ariannol a gwelliant o ran perfformiad.

23 Ar 9 Rhagfyr 2009, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Archwilydd Penodedig Lythyr Blynyddol ar y datganiadau ariannol, y trefniadau corfforaethol a pherfformiad y Cyngor gan nodi'r canlynol:

- roedd gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i weinyddu materion ariannol, cyflwyno adroddiadau arnynt a sicrhau gwerth am arian o ran ei ddefnydd o adnoddau yn 2008-09 ond roedd yn wynebu heriau ariannol sylweddol o ran ei drefniadau cyfrifyddu a'i drefniadau rheoli grantiau;
- roedd Gwasanaeth Tai'r Cyngor yn datblygu ond nid oedd yn gwbl effeithiol hyd yma yn dilyn trosglwyddo'i stoc tai;
- roedd gan y Cyngor drefniadau digonol ar waith i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn defnyddio cyfleusterau'r rhyngrwyd a ddarperir gan y Cyngor mewn ysgolion yn ddiogel ac mewn modd cyfrifol;
- roedd y Cyngor wedi dangos parodrwydd a gallu i wella'i ddull gweithredu corfforaethol er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau, er nad oedd gwaith rheoli asedau na chymorth TGCh i barhad busnes yn digwydd yn gorfforaethol.

## Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol newydd yn sefydlu fframwaith ar gyfer newid, gan sicrhau bod gweithgarwch gwasanaethau yn gydnaws â gweledigaeth o newid trawsnewidiol

24 Yn ystod 2009, sefydlwyd cydberthnasau gwaith newydd rhwng y Rheolwr Gyfarwyddwr a Chyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet. Dechreuodd y Tîm Rheoli Corfforaethol ar y broses o greu gweledigaeth newydd. Gan gydnabod yr angen am ddiben clir a neges a gweithredoedd cyson ym mhob cynllun ar gyfer gweithredu newid, bu uwch aelodau o staff yn cynnal trafodaethau a mabwysiadwyd fframwaith Cymwys ar gyfer y Dyfodol.

25 Mae Cymwys ar gyfer y Dyfodol yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol:

- y ddinas – cefnogi'r gwaith o ddatblygu dinas ar gyfer yr 21ain ganrif y mae pobl yn ymfalchïo ynddi;
- y cwsmer – myfyrio ar sut y caiff gwasanaethau eu darparu drwy ganolbwyntio ar ansawdd y canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau;
- perfformiad – trawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu: darparu gwasanaethau effeithlon sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac sy'n gydnaws â'r rhaglen Cymwys ar gyfer y Dyfodol;
- chi – y rôl sydd gan aelodau unigol o staff i'w chwarae o ran cyflawni amcanion a'r priodoleddau, y sgiliau a'r ymdeimlad o ddiben sydd eu hangen.

26 Mabwysiadodd y Cabinet fodel gweithredu newydd ar gyfer darparu gwasanaethau ar adeg o newid trawsnewidiol ar 13 Ebrill 2010. Mae'r model hwn yn cynnwys ailgyflunio gwasanaethau ac fe'i cynlluniwyd i newid y ffocws o seilos proffesiynol/arbenigol tuag at un lle y gellir cael mynediad i wasanaethau lluosog drwy un rhyngwyneb cwsmeriaid. Mae'r broses o weithredu newidiadau yn mynd rhagddi.



**27** Gan gydnabod yr angen i gyflawni prosiectau â blaenoriaeth o fewn yr adnoddau staff presennol, mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol wedi adleoli staff ac adnoddau fel ffordd o gynnal y ffocws ar feysydd allweddol o weithgarwch.

**28** Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn dwyn ynghyd flaenoriaethau a phrosiectau allweddol y Cyngor yn gynllun cyfunol, sef Cynllun Gwella Cymwys ar gyfer y Dyfodol, a gyflwynir i'r Cabinet ar 15 Gorffennaf 2010.

# Rhan 2: Dadansoddi trefniadau'r Cyngor i'w helpu i wella

## Ceir arwyddion y dylai'r arweinyddiaeth gref a'r fframwaith ar gyfer newid sy'n dod i'r amlwg, wedi'u tanategu gan fwy o bwyslais ar reoli cyllidebau, effeithlonrwydd a gweithio mewn partneriaeth gefnogi gwelliant, ond mae angen datblygu'r trefniadau cynllunio ariannol tymor canolig, mesurau canlyniadau a'r strategaethau rheoli pobl, rheoli asedau a rheoli TGCh ymhellach

### Mae arweinyddiaeth gref, gweledigaeth a fframwaith sy'n datblygu ar gyfer y dyfodol, gwell trefniadau rheoli cyllideb a gweithio mewn partneriaeth yn cefnogi gwelliant

29 Ar ôl sefydlu'r fframwaith Cymwys ar gyfer y Dyfodol a'r model gweithredu a gynlluniwyd i gefnogi'r gwaith o'i gyflawni, mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn ymgysylltu â staff er mwyn egluro eu rôl hwy yn y broses o gyflawni newid a pharu adnoddau â'i 10 prosiect mawr.

30 Ar y cyd â rheolwyr gwasanaethau, mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn parhau i adolygu'r dulliau presennol a dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau gyda'r nod o wella cost-effeithlonrwydd yn ogystal â mwy o ffocws ar ganlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae'r prosiectau a'r mentrau sy'n codi yn cynnwys:

- Darparu gwasanaethau integredig i gwsmeriaid drwy wella a lleihau'r gost o ddarparu gwasanaethau i gwsmeriaid drwy wneud gwell defnydd o dechnoleg, cynnig dulliau gwahanol i bobl ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor megis canolfannau wyneb yn wyneb, y ganolfan cyswllt cwsmeriaid, y we a theledu digidol.
- Newid trefniadau gweithio traddodiadol i ddull sy'n fwy cydnaws ac integredig â'r asiantaethau eraill sy'n gweithio yn y gymdogaeth. Mae gan y Cyngor gynlluniau i fabwysiadu dull rheoli cymdogaeth. Mae wedi ystyried rhannu'r ddinas yn sectorau sy'n seiliedig ar ardaloedd presennol megis ardaloedd yr heddlu, swyddogion diogelwch cymunedol, clystyrau ysgolion ac ardaloedd iechyd, a gwneud adnoddau'r Cyngor yn gydnaws o fewn cymdogaeth.
- Newid y ffordd y caiff gwasanaethau eu comisiynu a'u galluogi. Er enghraifft:
  - Drwy ganolfannau wyneb yn wyneb aml-asiantaeth a chyfuno gwasanaethau cyhoeddus. Er enghraifft: mae gan Fwrdd



Iechyd Aneurin Bevan gynlluniau i ddatblygu Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Dwyrain Casnewydd yn ardal Ringland/Alway. Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos â'r bwrdd iechyd i sicrhau bod gan y ganolfan y gallu a'r adnoddau i weithredu fel is-ganolfan ar gyfer y Prosiect Wyneb yn Wyneb.

- Mae therapydd galwedigaethol yn gweithio gyda'r tîm addasiadau ar sail arbrofol.

- Defnyddio Cyngor Dinas Caerdydd i ddarparu gwasanaeth cyllid myfyrwyr am lai o gost.

**31** Ar gyfer 2010-11, symudodd y Cyngor o ddibyniaeth hanesyddol ar y defnydd o falansau i ddull mwy cynaliadwy drwy bennu cyllideb wedi'i mantoli. Mae Cyfarwyddwyr Corfforaethol hefyd yn disgwyl i'r Penaethiaid Gwasanaethau chwarae rôl fwy gweithredol o ran rheoli cyllidebau a meddwl am syniadau ar gyfer gwneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau.

**32** Mae'r Cyngor yn ystyried dulliau amgen o ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i gyflawni blaenoriaethau. Mae gan yr Uned Effeithlonrwydd Busnes fethodoleg gadarn ar gyfer adolygu meysydd ar gyfer arbedion a chofnodi ei chanfyddiadau a'i hargymhellion, a cheir trefniadau da i flaenoriaethu'r meysydd i'w hystyried ar gyfer arbedion. Mae'r uned wedi gweithio'n gyflym i feddwl am syniadau a chwblhau adolygiadau, gan nodi arbedion a rhai trefniadau ariannu arloesol. Er enghraifft, er ei bod yn rhy gynnar i ddweud y bu'r Uned Effeithlonrwydd Busnes yn llwyddiant ysgubol, gan mai megis dechrau yw'r broses o gyflawni'r arbedion a nodwyd yn erbyn y gost o sefydlu a rhedeg yr uned, mae'r arwyddion cychwynnol yn gadarnhaol.

**33** Defnyddir benthyca darbodus i danategu prosiect cynnal a chadw priffyrdd mawr. Mae'r £21 miliwn a fenthycir yn seiliedig ar achos busnes sy'n nodi y bydd nifer yr hawliadau yswiriant yn lleihau'n sylweddol. Ystyrir bod y dull hwn yn arloesol ac yn flaengar, gan fynd i'r afael â materion hirdymor yn hytrach na pharhau i weithredu atebion byrdymor, ac mae ei lwyddiant yn cael ei fonitro'n agos gan eraill.

**34** Mae'r Cyngor hefyd yn gallu dangos trefniadau effeithiol o ran gweithio mewn partneriaeth. Ymhlith yr enghreifftiau o hyn mae:

- Cymryd rhan yng Nghynllun Pobl Fregus Gwent. Roedd y pum awdurdod lleol yng Ngwent yn cydnabod bod angen newid y trefniadau o ran iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn bodloni'r galw cynyddol yn wyneb lleihad mewn arian cyhoeddus. Mae elfennau'r broses o newid y system yn cynnwys:

  - caniatáu i ysbytai acíwt wneud yr hyn y maent yn ei wneud yn dda, yn hytrach na'u trin fel lleoliad ar gyfer pobl hŷn sydd ag anghenion mwy cyffredinol, yn enwedig;

  - defnyddio'r adnoddau o fewn y systemau iechyd a gofal cymdeithasol mewn ffordd fwy cydlynol, effeithiol ac integredig;

  - sicrhau profiad llai cymhleth a dryslyd i'r unigolyn dan sylw fel y gellir canolbwyntio ar adfer eu hannibyniaeth a'i chynnal;

  - trin yr unigolyn a'i ofalwr â pharch ac urddas, ac fel cyfranogwr gweithredol yn y broses ofal.

- Canolfannau aml-asiantaeth wyneb yn wyneb sydd â'r amcan o wella gwasanaethau a lleihau costau drwy drefniadau partneriaeth effeithiol â'r sector preifat. Sicrhau y caiff preswylwyr eu trin â pharch gan y partneriaid allweddol sy'n cyfuno i gydgysylltu gwasanaethau ar gyfer y bobl sydd fwyaf agored i niwed. Y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, Casnewydd yn Un, sy'n bennaf cyfrifol am lywodraethu'r prosiect aml-asiantaeth Wyneb yn Wyneb. Mae grŵp prosiect Wyneb yn Wyneb, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r gwasanaethau Iechyd, y Cyngor, y Ganolfan Cyngor ar Bopeth a'r Heddlu, yn cyflwyno adroddiadau i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

- Prosiect Gwyrdd – mae'r Cyngor yn aelod o bartneriaeth ranbarthol, sef 'Prosiect Gwyrdd', ynghyd â phedwar cyngor arall yn Ne Cymru. Mae'r bartneriaeth hon yn adlewyrchu angen ar y cyd i gaffael cyfleusterau trin gwastraff gweddilliol er mwyn lleihau faint o wastraff bioddiraddadwy sy'n mynd i safleoedd tirlenwi, a sicrhau trefniadau hirdymor ar gyfer gwaredu gwastraff gweddilliol. Mae'r bartneriaeth hon wedi gwneud cynnydd da ers iddi gael ei sefydlu yn 2007. Datblygwyd cynllun busnes amlinellol sy'n cynnwys asesiad cynhwysfawr o faterion ariannol, materion cyfreithiol, materion llywodraethu a materion technegol. Er bod Prosiect Gwyrdd wedi ennill ei blwyf ac y gall ddarparu ffordd gost-effeithiol o drin gwastraff gweddilliol, mae'r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol o ran cyflawni targedau hirdymor.

## Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran datblygu cynlluniau ariannol tymor canolig a gwerthuso cynaliadwyedd tymor hwy gweithgarwch, ond nid yw'r mesurau perfformiad presennol yn dangos y canlyniadau'n glir hyd yma

35 Roedd angen i'r Cyngor fynd i'r afael â'r materion allweddol canlynol:

- diffyg cynllun ariannol tymor canolig cadarn;
- diffyg trefniadau i adolygu p'un a yw cynigion o ran y gyllideb yn parhau i fod yn realistig;
- diffyg strategaeth gyfalaf.

36 Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn, comisiynodd y Cyngor adolygiad cymheiriaid gan CLILC a cheisiodd farn a chyngor y sector preifat i helpu i ddatblygu a sefydlu trefniadau ariannol tymor canolig sy'n cysylltu â'r rhaglen Cymwys ar gyfer y Dyfodol.

37 Fel rhan o'r gwaith o bennu cyllideb 2010-11 a chau cyfrifon 2009-10, adolygodd y Cyngor y gyllideb sylfaenol yn fanwl gan arwain at gyllideb fwy realistig wrth symud ymlaen. Roedd hyn yn cynnwys rhoi'r gorau i ddibynnu ar gronfeydd wrth gefn cyffredinol i ategu'r gyllideb sylfaenol, darparu ar gyfer cronfa 'buddsoddi i arbed', darpariaeth yn y gyllideb sylfaenol ar gyfer costau newid sefydliadol a chronfeydd wrth gefn yn y gyllideb sylfaenol er mwyn gosod y sail i'r Cyngor weithredu ei newidiadau i wasanaethau.



38 Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd o ran datblygu dull tymor canolig o gyflawni gwaith cynllunio ariannol, gan sicrhau bod arian ar gael i gefnogi prosiectau allweddol a sylweddol. Cafodd darpariaeth gyllidebol ei nodi a'i chlustnodi neu ei gynnwys mewn cyllidebau ar gyfer rhai o brosiectau allweddol y Cyngor, megis adfywio canol y ddinas a sefydlu 'Canolfan Wyneb yn Wyneb' sydd â'r nod o wella ac ehangu'r ffordd y mae cwsmeriaid yn defnyddio gwasanaethau'r Cyngor.

39 Paratowyd rhagolwg tair blynedd o'r adnoddau sydd ar gael a phennwyd targedau ar gyfer y Cyngor cyfan i weithredu'r newidiadau i wasanaethau. Cefnogodd hyn y Cyngor o ran dechrau cynllunio newidiadau trawsnewidiol i wasanaethau a darparu gwasanaethau sy'n 'gymwys ar gyfer y dyfodol' yn y tymor canolig.

40 Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi paratoi a chytuno ar gynllun ariannu pedair blynedd a nodwyd a chytunwyd ar faint o arbedion sydd eu hangen, ac mae yn y broses o ddatblygu strategaeth gyfalaf newydd.

41 Mae gan brosiectau mawr allweddol gysylltiadau amlwg â'r Cynllun Corfforaethol, ond mae angen gwneud y cynlluniau gwasanaeth a ddefnyddiwyd i lywio'r rhaglen Cymwys ar gyfer y Dyfodol yn gydnaws unwaith eto yn dilyn gwaith blaenoriaethu a chyfuno. Er nad yw hyn yn cael effaith hyd yma ar gyflawni blaenoriaethau allweddol, mae angen i'r Cyngor fod yn fwy eglur o ran canlyniadau arfaethedig gweithgarwch gwasanaethau ac asesu cyflawniadau.

42 Mae Bwrdd Perfformiad y Cyngor yn cyflawni rôl gadarnhaol o ran gwerthuso'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau allweddol a sicrhau ffocws ar feysydd gwasanaeth allweddol, gan herio'r dulliau cyflenwi presennol a llywio gwelliant. Bu'r bwrdd ar waith ers sawl blwyddyn ac mae'n pwysleisio cyfrifoldeb ac atebolrwydd aelodau'r Cabinet dros berfformiad. Mae'n darparu fforwm defnyddiol i drafod perfformiad rhwng aelodau a swyddogion, ac yn hwyluso'r broses o feddwl am syniadau ar gyfer gwella.

43 Ar hyn o bryd caiff gwybodaeth am berfformiad ei chasglu gan ddefnyddio dull cerdyn sgorio cytbwys sy'n esgor ar wybodaeth amrywiol. Ond nid yw mesurau yn darparu eglurder ynglŷn â chanlyniadau defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill. Mae'r Cyngor wedi adolygu ei ddull o fonitro cynnydd yn erbyn blaenoriaethau strategol craidd ac, ym mis Gorffennaf 2010, adolygodd y dull hwnnw, gan nodi'r 'llwybr hollbwysig'. Y prif ffocws yn y dyfodol fydd y canlyniadau a gyflawnir, gyda'r Cyngor yn ceisio asesu 'effaith' ei weithgareddau ar Gasnewydd. Bydd cynlluniau gwasanaeth yn y dyfodol yn seiliedig ar y dull hwn.

44 Nid yw adroddiadau rheoleiddio allanol bob amser wedi'u rhannu mewn dull systematig â fforymau trosolwg a chraffu'r Cyngor. Yn yr un modd, bu'r trefniadau ar gyfer gweithredu argymhellion yn wan. Mae'r Cyngor yn adolygu ei drefniadau i wella trefniadau i gydgysylltu a chyflwyno adroddiadau ar adroddiadau rheoleiddio allanol er mwyn hysbysu cynghorwyr yn well am y canfyddiadau a'u galluogi i gymryd camau priodol.

## Cymerir camau i wella trefniadau rheoli asedau corfforaethol ond, hyd yma, nid yw'r trefniadau'n gydnaws â chyflawni'r rhaglen newid

**45** Nododd canfyddiadau allweddol adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o drefniadau rheoli adeiladau yn 2009 enghreifftiau o arfer da, yn enwedig o ran trefniadau rheoli gweithredol y Cyngor ar gyfer ei dir a'i adeiladau, er i ni nodi meysydd i'w gwella hefyd. Ein canfyddiadau allweddol oedd:

- mae gan y Cyngor gynllun rheoli asedau corfforaethol a grŵp rheoli asedau i gefnogi'r broses gyflenwi, ond nid yw ei strategaeth na'i ddull rheoli yn ddigon cadarn nac yn cael adnoddau digonol i gyflawni gwelliannau sylweddol yn y dyfodol;
- mae trefniadau rheoli perfformiad ar waith, ond nid yw'r rhain yn ddigon cadarn i lywio a chyflawni'r cynllun rheoli asedau corfforaethol;
- mae gan y Cyngor systemau ar gyfer rheoli ei dir a'i adeiladau, ond nid yw'r rhain yn sicrhau gwerth am arian yn gyson bob amser;
- mae gan y Cyngor drefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian o'i drefniadau gweithredol i reoli tir ac adeiladau, ond mae angen iddo wella cwmpas ac adnoddau rhai cynlluniau.

**46** Mewn ymateb i hyn, mae'r Cyngor wedi cytuno i sefydlu gwasanaethau eiddo integredig er mwyn sicrhau bod gweithgareddau'n gydnaws â Chymwys ar gyfer y Dyfodol.

## Nid yw'r trefniadau presennol ar gyfer rheoli pobl a rheoli TGCh yn strategol yn gydnaws â chyflawni'r rhaglen newid

**47** Roedd trefniadau Adnoddau Dynol yn destun astudiaeth benodol gan Swyddfa Archwilio Cymru rhwng mis Chwefror a mis Mawrth 2010. Bu'r Pennaeth Adnoddau Dynol newydd a benodwyd ym mis Chwefror 2010, yn dilyn ymddeoliad y Pennaeth Adnoddau Dynol a fu yn ei swydd ers blynyddoedd lawer, yn gweithio gyda'r Tîm Rheoli Corfforaethol i ddatblygu trefniadau Adnoddau Dynol a datblygu sefydliadol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r rhaglen Cymwys ar gyfer y Dyfodol.

**48** Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn cydnabod yr angen i wella trefniadau Adnoddau Dynol fel eu bod yn cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau yn well. Mae'r Cyngor yn wynebu nifer o heriau o ran Adnoddau Dynol, yn enwedig:

- ar hyn o bryd, nid oes cynllun gweithlu strategol ar waith (er bod rhywfaint o waith cynllunio'r gweithlu o fewn gwasanaethau cymdeithasol);
- caiff rhai polisïau Adnoddau Dynol eu gweithredu'n anghyson ar lefel weithredol;
- nid aed i'r afael yn effeithiol ag absenoldeb oherwydd salwch ac erys lefelau yn uchel, gyda 50,000 o ddiwrnodau wedi'u colli yn y 10 mis hyd at fis Ionawr 2010 – sef cyfartaledd o rhwng 11 a 10 diwrnod fesul aelod o staff;



- datblygu'r sgiliau a'r cymwyseddau newydd a ddisgwylir gan reolwyr a staff i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r rhaglen newid, gan nad oes dull corfforaethol cyson o nodi a diwallu anghenion o ran hyfforddiant.

49 Roedd cyflwyno safonau GCSX yn 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â 93 o reolau manwl er mwyn gallu cyfnewid data ar fudd-daliadau yn electronig gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae hyn wedi helpu'r Cyngor, drwy ei Wasanaeth Systemau Gwybodaeth a Chyfathrebu, i orfodi safonau technoleg, datblygu, diweddaru a chyfuno'r seilwaith TGCh a mynd i'r afael â meysydd a ohiriwyd yn y gorffennol oherwydd prinder arian cyfalaf. Mae'r datblygiadau hyn yn gosod sylfaen gadarn fel y gall y Cyngor weithio i drawsnewid gwasanaethau ymhellach.

50 Mae'r Cyngor yn bwriadu trawsnewid gwasanaethau a sicrhau enillion effeithlonrwydd drwy wneud mwy o ddefnydd a gwell defnydd o dechnoleg, yn cynnwys:

- darparu dulliau amrywiol i ddinasyddion gael gafael ar wasanaethau'r Cyngor, megis y rhyngrwyd, dros y ffôn, canolfan aml-asiantaeth wyneb yn wyneb a theledu digidol;
- darparu a chefnogi trefniadau gweithio gartref a gweithio symudol ar gyfer staff y Cyngor;
- gofynion rheoli parhad busnes.

51 Yn anochel bydd effaith y cynlluniau hyn yn golygu galwadau a heriau cynyddol ar gyfer y Gwasanaeth Systemau Gwybodaeth a Chyfathrebu wrth i ddefnydd y Cyngor o dechnoleg, a'i ddibyniaeth arni, gynyddu, ond nid yw'n glir ar hyn o bryd sut y sicrheir adnoddau ar gyfer hyn. Yn ogystal, er bod gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i wella trefniadau parhad busnes, nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa dda eto i ddarparu gwasanaethau hollbwysig, sy'n dibynnu ar dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, pe bai unrhyw amharu difrifol.

52 Nid yw'r trefniadau llywodraethu TGCh corfforaethol a weithredwyd yn flaenorol ar waith mwyach. Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol wedi dod yn gyfrifol am lywodraethu TGCh ac mae'n gwneud penderfyniadau pwysig sy'n ymwneud â TGCh ar sail meini prawf buddsoddi i arbed. Ar sail ad hoc yr ymdriniodd y Cyngor â TGCh; ar hyn o bryd mae'n datblygu ei ddull corfforaethol strategol o ymdrin â TGCh er mwyn tanategu'r rhaglen Cymwys ar gyfer y Dyfodol sy'n gysylltiedig â Strategaeth TG Genedlaethol Cymru.